CYNGOR TREF FRENHINOL CAERNARFON

COFNODION PWYLLGOR CYNLLUNIO 27 MEHEFIN 2017

Presennol
Cadeirydd – Cyng W T Owen

W L Davies, R Thomas, S Sage, K Jones, A Hopcyn, I C Thomas

1. **Ymddiheuriadau**

Cyng G Thomas

2. **Ethol Swyddogion**

Cafodd Cyng W T Owen ei ethol yn gadeirydd (unfrydol)
Cafodd Cyng W L Davies ei ethol yn is gadeirydd (unfrydol)

3. **Datgan Buddiant Personol**

Dim

4. **Eitemau Brys (Cadeirydd/Clerc**). Er gwybodaeth neu i'r Clerc weithredu. Ni chaniateir penderfyniadau

Dim

5. **Ceisiadau Cynllunio**

I ystyried y ceisiadau cynllunio
Penderfynwyd
Rhif/Number Manylion/Particulars Cytuno/Agree Anghytuno/Disagree

1. C17/0508/14/CR **Cytuno/Agree**
Addasiadau mewnol/Internal Alterations

16 - 18 Palace Street, Caernarfon

****

2. C17/0496/14/LL **Cytuno – ond gofyn i'r swyddogion**
Newid defnydd o rhan o lawr gwaelod y cyn-gampfa ym Mhloc C i swyddfeydd/ Change of use of part of ground floor of Block C from previously used Gymnasium into offices **roi ystyriaeth i'r dylanwad ychwanegol ar y meysydd parcio cyhoeddus os na fydd darpariaeth ychwanegol ar eu cyfer ar y safle** ***(Sylwadau erbyn 21.6.2017/Observations by 21.6.2017)***

Uned C /Unit C Doc Fictoria,

Victoria Dock Caernarfon

****

3. C17/0508/14/CR **Cytuno/ Agree**
Addasiadau mewnol /Internal Alterations

16 - 18 Palace Street, Caernarfon

****

4. C17/0544/15/HY **Cytuno/ Agree**
Cais ôl-weithredol i gadw arwydd newydd/Retrospective application to retain a new advertisement

Siop Islawr Macsen, 11 Castle Square,. Caernarfon

****

5. C17/0534/14/LL **Cytuno/Agree**
Dymchwel modurdy presennol o chodi modurdy dwbl, ystafell offer a choridr Gwydr i gysylltu gyda'r ty newydd a ganiatawyd o dan cais rhif C16/1036/14/LL/
Demolish existing garage and erect a double Garage, plant room and glazed corridor to Link with the new dwelling approved under application No. C16/1036/14/LL

Plas Brereton Farm, Caernarfon

****

6. C17/0539/14/LL **Cytuno/Agree**
Estyniad unllawr yng nghefn yr eiddo/
Single storey extension at rear of property

1 Y Bwthyn, Bythynhod Cefn Menai Caernarfon

****

DRAFT

7. C17/0541/14/LL **Cytuno/Agree**
Codi dau dy par ynghyd a gwaith cysylltiol /
Erection of a pair of semi-detached houses
Together with associated works

Tir ger/Land adj to 4 Rhosbodrual Terrace
Caernarfon

****

8. C17/0547/14/HY **Cytuno ond rhoi ystyriaeth**
Uwchraddio arwyddion presennol/ **i arwyddion ddwyieithog**
Upgrade existing advrtisements Agree but ask for consideration
Of bilingual signs

Albert Inn, 10 Segontium Terrace, Caernarfon

****

6. Trafod ffordd ymlaen a canllawiau'r pwyllgor

Cafwyd Trafodaeth eang iawn ar y strwythr

Nododd y clerc bod opsiynau o greu adran caeedig ar y wefan i gynghorywr rhoi sylwadau ond teimlir bod dim angen hyn ar hyn o bryd yn enwedig gan mai cyfnod prawf sydd i'r pwyllgor ar hyn o bryd

Gan bod y cyfarfod yn rhoi pwysau ychwanegol ar y staff **penderfynwyd** newid i fod y Nos Fawrth cyntaf a trydydd o bod mis (hynny ydi un cyn Cyngor , ond hyn ddim yn medru digwydd wythnos nesaf gan bod dim amserlen I anfon rhaglen /ceisiadau yn amserol)

Yn bresennol mai gan Y Maer a'r Dirprwy hawl i weithredu dros gyfnod mis Awst yn ogystal a ail hanner Mai a Rhagfyr **penderfynwyd** parhau ar trefniant yma

Teimlodd rhai bod derbyn y ceisiadau fel y mae nhw yn cyrraedd y swyddfa yn gwneud hi yn anodd i edrych nol trwy llif ebyst ac felly **penderfynwyd** anfon rhaglen allan ar ebost wythnos cynt yn rhestru yr holl geisiadau **(**fydd hyn yn golygu fod rhaid i'r cynghorwyr gopio'r rhif cais draw i ddilyn a darganfod **)(clerc i geisio cael linc byw yn y rhaglen os yn bosib)**

Clerc wedi siarad efo swyddogion Cyngor Gwynedd parthed hyfforddiant ac mae nhw yn ystyried trefnu cwrs i gynghorau tref a chymuned .

Teimlir bod hyn yn syniad da iawn gan sicrhau bod nhw yn dod a esiamplau gwael a da gan annog aelodau'r pwyllgor i gyd i fynychu. Clerc am adrodd yn ol

Os fydd amserlen cais yn rhy dynn i ddyddiad y cyfarfod wedyn mi fydd y clerc yn anfon o allan ar ebost yn goyfn am ymateb brys

Gorffenodd y cyfarfod am 5.55

Arwyddwyd ……. Dyddiad ……..

DRAFT